# Rhwydwaith Sentinel Cymru
# Wales Sentinel Network

Rhifyn/Edition 2
Hydref/October 2022

Rhwydwaith Sentinel Cymru
Wales Sentinel Network

Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru
In Partnership with Welsh Government

Animal & Plant Health Agency
Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

## Helô Rwydwaith!

Dyma ail rifyn cylchlythyr Rhwydwaith Sentinel Cymru.

Nod y cylchlythyr hwn yw cefnogi'r 22 o safleoedd Sentinel ledled Cymru sydd wedi cofrestru â Rhwydwaith Sentinel Cymru, ond cofiwch fod croeso ichi ei rannu ag eraill fyddai â diddordeb. Croesawn gyfraniadau at y cylchlythyrau nesaf, cysylltwch â Daniel.Wood001@llyw.cymru am ragor o wybodaeth.

## Y Rhwydwaith Safleoedd Sentinel



Bwrdd dehongli wedi'i osod ym Modelwyddan.

Eleni, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r gwaith dylunio, argraffu a gosod deunyddiau hyrwyddo ar draws y Rhwydwaith Safleoedd Sentinel. Mae'r deunyddiau dwyieithog yn cynnwys:

- Byrddau dehongli A1
- Posteri A4
- Arwyddion A4

Mae byrddau dehongli wedi'u gosod mewn 12 Safle Sentinel ac mae arwyddion/posteri wedi'u dosbarthu i 20 safle ledled y rhwydwaith.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dylunio a chreu ffilm ddwyieithog fer i'w dosbarthu â'r Rhwydwaith Sentinel a fydd yn cael ei rhannu ar wahân. Dangoswyd y ffilm yn gynharach eleni yn y Sioe Frenhinol gan amlygu nodau'r prosiect a'r rhwydwaith.





Byrddau dehongli wedi'u gosod yng Nghastell y Waun (llun ar y chwith) ac yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru (llun ar y dde).

## Archwiliadau Iechyd Planhigion

Mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion wedi parhau i gynnal archwiliadau ddwywaith y flwyddyn ym mhob safle. Yn ystod archwiliad arferol, daeth Archwilwyr Iechyd Planhigion a Hadau o hyd i *Pesalotiopsis monochaeta* ar goeden Thwia. Yn yr achos hwn, ni chymerwyd unrhyw gamau gweithredu statudol ond mae'r canfyddiad yn pwysleisio manteision yr archwiliadau hyn.

## Rhwydwaith Gwyliadwriaeth Iechyd Planhigion Cymru

Mae [Rhwydwaith Gwyliadwriaeth Iechyd Planhigion Cymru]() (WPHSN) yn fenter a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac sy'n cael ei rheoli gan [Forest Research]() sydd â'r nod o fonitro plâu a phathogenau brodorol ac ymledol sy'n gallu bygwth iechyd planhigion a choed yng Nghymru. Nod Rhwydwaith Gwyliadwriaeth Iechyd Planhigion Cymru yw:

- Asesu bodolaeth neu beidio organeddau ymledol ledled Cymru
- Llunio map 'amser real' sy'n manylu lle y mae organeddau ymledol wedi'u canfod a chofnodi'u helaethrwydd
- Hyrwyddo a hwyluso cydweithio gydag asiantaethau allanol i ddatblygu'r rhwydwaith lle y gellir rhannu gwybodaeth a chyngor



Enghraifft o drap pryfed amldwndis.



Enghraifft o drap sborau â breichiau troi.

Caiff trapiau pryfed a sborau eu gosod mewn safleoedd coetir strategol ledled Cymru gan gynnwys pedwar safle Sentinel. Mae trapiau pryfed yn cael eu cynnal bob pythefnos a chynhelir sgrinio cychwynnol ar y samplau a gymerir er mwyn canfod a oes rhywogaethau ymledol. Caiff ail sgriniad ei gynnal yn ystod misoedd yr hydref a'r gaeaf a fydd yn cadarnhau presenoldeb organeddau eraill. Bydd hyn, o ganlyniad, yn helpu i lunio darlun o fioamrywiaeth pryfed yng nghoetiroedd Cymru. Caiff samplau biolegol o drapiau sborau eu hanfon yn ddiogel at staff labordai'r Gwasanaeth Cynghori a Diagnostig Iechyd Coed Forest Research, sydd wedi'u lleoli yn Alice Holt yn Hampshire a Gorsaf Ymchwil y Gogledd yng Nghaeredin, ar gyfer eu dadansoddi a chanfod diagnosis.

Yn ogystal, bydd y data a gesglir o'r prosiect hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu nodau a pholisïau sy'n flaenoriaeth o ran rheoli coetir yng Nghymru.

## Defnyddio trapiau a'r drefn archwilio

Hyd yma, dyma nifer y trapiau a ddefnyddir:

- 20 trap esgyll croes
- 13 o drapiau canopi
- 5 trap sborau

Rhennir gwybodaeth yn rheolaidd rhwng Forest Research a phartneriaid allanol. Hwylusodd digwyddiadau rhwydweithio gwerthfawr gyda chydweithwyr o'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion y gwaith o ddatblygu cysylltiadau gwaith a chydweithio â safleoedd Sentinel sy'n bodoli eisoes. Mae cydweithio agos a chyson gyda Cyfoeth Naturiol Cymru wedi galluogi'r gwaith o fynd i goetiroedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn hwylus ac yn rheolaidd er mwyn defnyddio trapiau.



Enghraifft o drap bwced i ddal pryfed.



Enghraifft o drap pryfed esgyll croes.

Mae rhannu gwybodaeth ac addysg i'r cyhoedd yn allbwn pwysig o'r prosiect hwn. Bydd tîm Rhwydwaith Gwyliadwriaeth Iechyd Planhigion Cymru felly yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu megis y Sioe Frenhinol flynyddol, Arddangosfa'r Gymdeithas Coedwigwyr Proffesiynol (sioe goedwigaeth, coetiroedd a choedyddiaeth fwyaf y DU) a gynhelir ddwywaith y flwyddyn, a'r Gynhadledd Iechyd Planhigion Ryngwladol a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Llundain.

## Cydweithio ar Safleoedd Sentinel

Ar hyn o bryd, defnyddir trapiau ar y Safleoedd Sentinel canlynol:

- Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
- Parc Gwledig Loggerheads
- Castell Powis
- Plas Newydd, Ynys Môn

Yn rhan o'r prosiect, rydym yn awyddus i Safleoedd Sentinel eraill feithrin cysylltiadau yn weithredol gyda Rhwydwaith Gwyliadwriaeth Iechyd Planhigion Cymru a chynnig lleoliadau ar gyfer rhagor o drefniadau gosod trapiau ac archwilio. Os yw'r prosiect hwn o ddiddordeb i'ch safle chi, mae croeso i chi gysylltu â Daniel.Wood001@llyw.cymru neu'r cysylltiadau isod a byddem yn hapus i drafod ymhellach â chi.



Enghraifft o drap sborau Burkard.

## Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth, ewch i: Rhwydwaith Gwyliadwriaeth Iechyd Planhigion Cymru - Forest Research

Racheal Lee, Gweithiwr Ymchwil – Iechyd Coed: racheal.lee@forestresearch.gov.uk

Dr Leone Olivieri, Patholegydd Coedwigoedd a Chynghorydd Technegol: leone.olivieri@forestresearch.gov.uk

# Prosiectau/digwyddiadau eraill

## Sioe Frenhinol Cymru 2022




Byrddau Safleoedd Sentinel wedi'u gosod yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru.

Yn gynharach eleni, cynhaliwyd Sioe Frenhinol Cymru yn Llanfair-ym-Muallt unwaith eto. Gosodwyd bwrdd dehongli Safleoedd Sentinel y tu allan i stondin Forest Research ar faes y sioe. Roedd hyn yn gyfle da i arddangos y rhwydwaith a thynnu sylw'r cyhoedd at y prosiect.

## Cynhadledd Iechyd Planhigion Ryngwladol

Ym mis Medi, cynhaliwyd y Gynhadledd Iechyd Planhigion Ryngwladol gyntaf yn Llundain. Cyd-drefnwyd y gynhadledd hon gan DEFRA ac Ysgrifenyddiaeth y Confensiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu Planhigion (IPPC) sy'n rhan o Sefydliad Bwyd ac Amaeth y Cenhedloedd Unedig. Nod y gynhadledd gyntaf oedd mynd i'r afael â heriau newydd a heriau sy'n dod i'r amlwg o ran iechyd planhigion.

Roedd dros 500 o gynrychiolwyr o dros 70 o wledydd yn bresennol yn y gynhadledd, gan gynnwys ystod eang o siaradwyr allweddol o bedwar ban byd. Cafwyd nifer o gyflwyniadau a oedd yn amlygu'r agweddau rhyngwladol o ran iechyd planhigion, ochr yn ochr â'r cysylltiadau masnach, diogeledd bwyd, bioamrywiaeth, newid hinsawdd ac arwyddocâd iechyd planhigion yn y cyd-destun byd-eang. Ailadroddodd y Confensiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu Planhigion ei syniad i'r gymuned iechyd planhigion fyd-eang ddiogelu'r amgylchedd rhag effeithiau negyddol plâu planhigion. I gyflawni hyn, mae fframwaith strategol wedi'i ddatblygu sydd â'r nod i gysoni cyfnewid data yn electronig, cryfhau systemau rhybuddio ac ymateb i achosion o blâu yn ogystal ag asesu a rheoli effeithiau newid hinsawdd ar iechyd planhigion.

## Rhwydwaith Sentinel Jersey

Yn ddiweddar, mae Jersey wedi sefydlu ei rhwydwaith Safleoedd Sentinel ei hun. Mae 5 safle Sentinel wedi'u sefydlu ar draws yr ynys sy'n cynrychioli'r amrywiaeth unigryw sydd gan yr ynys. Mae'r safleoedd hyn yn sganio ac yn monitro am blâu a phathogenau planhigion sydd o bwysigrwydd lleol a rhyngwladol.

Rhai o'r plâu sy'n cael eu monitro yw'r chwilen hirgorn Asia (*Anoplophora glabripennis*), gwyfyn ymdeithiwr y Derw (*Thaumetopoea processionea*), gwyfyn ymdeithiwr y Pinwydd (*Thaumetopoea pityocampa*) a nifer o chwilod rhisgl o'r genws *Ips* sy'n achosi difrod sylweddol i'r diwydiant coedwigaeth. Mae'r gwaith monitro hwn yn rhoi'r cyfle i ni gadw golwg am blâu sy'n effeithio ar wahanol gynefinoedd ar yr ynys a thu hwnt. Gan fod Jersey wedi'i lleoli yn y sianel ac yn agos at Ffrainc, mae cyfle i'r ynys yn ei chyfanrwydd fod yn safle sentinel sy'n rhoi gwybod i'r DU am blâu ac afiechydon sydd o bryder.

Mae cysylltiadau agos rhwng Rhwydwaith Sentinel Cymru a Rhwydwaith Sentinel Jersey yn sicrhau cyfle unigryw i rannu gwybodaeth er mwyn helpu ei gilydd i fonitro plâu ac afiechydon. Gwneir hyn wrth rannu arferion gorau, methodolegau gwyliadwriaeth a deunyddiau hyfforddi er mwyn cynyddu gallu ymhlith gerddi aelodau.